



TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

**TGAU (NEWYDD)
CYMRAEG IAITH**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Cymraeg Iaith Uned 1
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

Sylwadau cyffredinol

Ymatebodd yr ymgeiswyr i her y ddwy dasg lafar gyda hyder a phositifrwydd a chafwyd cyflwyniadau difyr a thrafodaethau byrlymus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ddwy dasg diolch i arweiniad cadarn y canolfannau ac maent yn paratoi'n ofalus er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflwyno a thrafod. Dengys nifer fawr falchder yn eu gwaith ac mae'n bleser clywed ymgeiswyr o amrywiol gefndiroedd ieithyddol yn cyfathrebu eu syniadau'n hyderus yn y Gymraeg. Erbyn hyn, serch hynny, mae'r tasgau llafar yn gallu bod yn achos pryder i rai ymgeiswyr ac mae rôl athrawon yn allweddol wrth sicrhau eu bod yn gallu wynebu'r tasgau gyda rhywfaint o hyder. Gwerthfawrogir y gwaith a wneir i sicrhau bod pob ymgeisydd yn llwyddo i gwblhau'r tasgau. Gall ymgeiswyr gyflwyno mewn dull sy'n naturiol iddyn nhw - o flaen cynulleidfa o ddsbarth cyfan, grŵp bach o ryw ddau neu dri o ddisgyblion neu gydag athro'n unig, cyn belled â'u bod yn cael y profiad o ddethol a chyflwyno gwybodaeth yn drefnus gan ddangos ymwybyddiaeth bod angen i'r gynulleidfa ddeall yr hyn a ddywedir. Mae natur yr asesiad hefyd yn rhoi hyblygrwydd i ganolfannau i ddewis y dull asesu sydd fwyaf priodol i'w hymgeiswyr, boed yn ddiwrnod cyfan neu'n gyfnodau eraill wedi eu neilltuo i'r dasg. Diolchir i chi fel canolfannau am eich gwaith yn sicrhau tegwch i'ch ymgeiswyr wrth wynebu'r tasgau hyn: maent yn bwysig i'r ymgeiswyr ond maent yn gyfraniad allweddol hefyd i greu siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu cyfathrebu syniadau'n eglur. Cofier am yr adroddiadau cymedrolwyr a anfonir at bob canolfan. Mae'r rhain yn cynnwys adborth manwl a phenodol i'ch canolfannau unigol.

Gweinyddol

Ceir gwaith gweinyddol trefnus gan fwyafrif y canolfannau ac mae hyn yn allweddol i hwyluso'r cymedroli. Diolch i chi am eich gofal. Mae mwy o ganolfannau yn cyflwyno nodiadau manwl a defnyddiol iawn ar daflenni unigol yr ymgeiswyr ac mae hyn o gymorth mawr i'r safonwyr.

Cryfderau:

- Mwyafrif y gwaith yn cyrraedd yn brydlon ac ar go' bach (er bod mwy yn hwyr eleni)
- Co' bach wedi ei labelu
- Sain y mwyafrif yn gwbl eglur
- Mwy o glipiau gweledol yn profi cyn lleied o nodiadau oedd gan ymgeiswyr
- Nodiadau manwl ar nifer o'r taflenni unigol yn cynnwys sylwadau cefndirol a sylwadau am yr asesu
- Labelu co' bach
- Traciau mewn ffeiliau trefnus wedi eu labelu'n eglur
- Gwybodaeth gywir ar ddechrau'r traciau
- Ymgeiswyr yn cyflwyno'u hunain yn eglur fel y gellir adnabod unigolion yn y dasg grŵp
- Cynnwys nodiadau unigol yr ymgeisydd
- Mwy o ganolfannau'n cynnwys nodiadau Ymateb a Rhyngweithio'r ymgeiswyr
- Llai o dasgau byrion

Materion sy'n codi:

- Cymedrolwyr- yn gorfod cysylltu â chanolfannau i ofyn am nodiadau unigol (mae angen darllen canllawiau CBAC ar gyfer asesiadau llafar yn ofalus er mwyn gwirio a yw popeth wedi ei wneud)
- Enghreifftiau o daflenni ymgeisydd heb nodiadau athro
- Co' bach heb label
- Enghreifftiau o ymgeiswyr anghywir wedi eu gyrru/ traciau coll – rhaid cadw at y rhestr a roddir gan y cyfrifiadur
- Ambell wall gweinyddol yn creu dryswch
- Er bod llai o dasgau byrion, yn yr achosion hynny roedd yr asesu'n rhy hael
- Amlenni plastig yn gwarchod y gwaith yn well nag amlenni papur
- Atgoffir y canolfannau y dylid cynnwys nodiadau Ymateb a Rhyngweithio'r ymgeiswyr yn ogystal â nodiadau'r dasg unigol
- Anodd iawn adnabod ymgeiswyr rhai canolfannau yn y dasg grŵp gan nad ydynt yn cyflwyno eu hunain ar ddechrau'r drafodaeth
- Enghraifft o ymgeisydd yn cymryd rhan mewn trafodaethau mewn dau grŵp gwahanol ac atgoffir canolfannau mai un waith y dylid asesu'r ymgeiswyr ar yr un testun

Sylwer os gwelwch yn dda ar y canllawiau sydd yn y llyfryn Asesu Mewnol – Canllaw i ganolfannau ar dudalen 11 pwynt 2.6:

Os yw'r sampl yn cynnwys ymgeisydd sydd â'i waith yn anghyflawn yna dylech nodi ar y system yr ymgeisydd nesaf (naill ai'n uwch neu'n is) sydd â'i waith yn gyflawn. Ni ddylid anfon y gwaith anghyflawn at y cymedrolwr.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil:

Rhyfeddir yn flynyddol at yr amrywiaeth eang o destunau a gyflwynir gan yr ymgeiswyr. Maent yn sicr yn dod yn fwy hyderus wrth ddewis testunau sydd o wir ddiddordeb iddynt ac mae nifer gynyddol yn cyfleu'r diddordeb hwnnw ac yn ei ennyn yn y gwrandawr yn ogystal. Mae mwy o ymdeimlad o bwrpas i'r dasg gan y mwyafrif, gyda llai o restru ffeithiau moel a gwell ymwybyddiaeth o gynulleidfa. Mae'r ymgeiswyr yn well am ddethol gwybodaeth a'i chyflwyno'n gydlynol gan ystyried beth yn union sydd angen ei rannu â'r gynulleidfa er mwyn cyrraedd y nod. Clywir llawer llai o gyflwyniadau byrion ac mae'r mwyafrif o'r rheini yn ateb cwestiynau ar y diwedd sy'n rhoi cyfle i ymhelaethu mewn dull naturiol. Defnyddir mwy o eirfa dadansoddi (e.e. mae hyn yn dangos/oherwydd hyn/yn dilyn hyn) sy'n dangos gwell ymwybyddiaeth o'r angen i ddadansoddi'n gyson. Mae lefel y dadansoddi'n amrywio, wrth gwrs, ond rhaid cofio nad yw un frawddeg o ddadansoddi wrth gloi yn ddigon i gyrraedd Band 4. I wobrwyo marciau am ddadansoddi syniadau, rhaid cael tystiolaeth gyson bod yr ymgeisydd yn gwneud hynny. Rhaid hefyd wrth syniadau heriol, wedi eu mynegi'n eglur a chyda dealltwriaeth aeddfed, i gyrraedd Band 5. Er bod datblygiad sylweddol wedi bod yn y sgiliau hyn, mae nifer o'r disgyblion yn rhy ddibynnol ar nodiadau. Deallir yr angen am gynhaliath ond nid tasg ddarllen mohoni. Mae'n annheg gorwobrwyo am y sgiliau hyn pan fo gormod o gynhaliath, gan mai tasg ysgrifennu dda yn cael ei darllen yw hi yn yr achosion hyn ac nid tasg lafar.

Cryfderau:

- Clipiau fideo yn dangos ymgeiswyr yn cyflwyno'n naturiol heb nodiadau
- Mwy o ymdeimlad o bwrpas a chyfanwaith yn nifer
- Blaenoriaethu gwybodaeth yn effeithiol a hepgor gwybodaeth ddiangen
- Sicrhau bod y syniadau a gyflwynir yn gwbl eglur
- Mwy o ymgeiswyr yn rhoi sylw i arddull y cyflwyniad
- Amrywio goslef a phatrymau brawddegau i gynnal diddordeb
- Gosod cyd-destun i'r cyflwyniad ar y dechrau - dyfyniad/datganiad bachog/cwestiwn rhyngweithiol
- Llwyddo i gyflwyno syniadau yn hytrach na mynegi barn gyda thestunau mwy 'dadleuol'
- Llithrigrwydd wrth ddefnyddio geirfa gymhleth – ymchwilio ac ymarfer effeithiol
- Cwestiynau'n ychwanegu at y cyflwyniad yn aml, yn arbennig ar waelod yr ystod
- Atebion naturiol i'r cwestiynau
- Cyswllt clir rhwng gwahanol agweddau'r testun
- Apelio at gynulleidfa (boed yn ddsbarth, grŵp neu'n athro)

Materion sy'n codi:

- Rhai cyflwyniadau llawer rhy hir e.e. 18 munud (blaenoriaethu a chyflwyno'n gryno yn sgiliau allweddol)
- Un ganolfan gyda'r holl ymgeiswyr yn cyflwyno'r un pwnc – dylid rhoi dewis er mwyn sicrhau diddordeb, didwylledd a gwreiddioldeb
- Rhai ymgeiswyr yn dioddef o beidio â chael cwestiynau i'w hateb
- Cwestiynau ac atebion wedi eu sgrïptio (nid yw hyn yn ychwanegu at y perfformiad a chafwyd enghreifftiau o sgrïptio yn y nodiadau)
- Nifer o'r ymgeiswyr yn gwbl ddiwynnol ar nodiadau (y llinyn mesur yw gofyn a fyddai unrhyw un arall yn gallu gwneud yr union gyflwyniad o edrych ar y nodiadau)
- Cambwysleisio geiriau a chymalau oherwydd diffyg dealltwriaeth (rhaid sicrhau dealltwriaeth cyn gallu cyfleu dealltwriaeth)
- Rhai yn mynegi barn (rhaid cyflwyno gwybodaeth yn sail i unrhyw drafod syniadau dadleuol)
- Defnydd o eiriau Saesneg – *so/like/basically*
- Cywair rhy ffurfiol
- Rhai angen dysgu patrymau brawddegau dadansoddi
- Enghreifftiau prin o bynciau eang ac agweddau digyswllt e.e. Cymru – rygbi, Rhufeiniaid, poblogaeth, Owain Glyndŵr, yr iaith Gymraeg

Ymateb a Rhyngweithio:

Trafodwyd y tri thestun yn hyderus eleni a bu'n bleser gwranddo ar gyfraniadau byrlymus a syniadau aeddfed. Mae'r goreuon yn trafod gyda phwrpas ac arddeliad gan gyflwyno dadleuon treiddgar a deallus. Gwnaed defnydd da o'r cwestiynau ar y sbardunau i strwythuro trafodaethau a phrin yw'r grwpiau sy'n methu â thrafod am ddeng munud. Roedd yr ymgeiswyr wedi perchnogi'r dasg ac wedi gwneud gwaith ymchwil annibynnol i gefnogi dadleuon ac roedd nifer yn defnyddio profiadau personol yn dystiolaeth yn ogystal. Ceir rhyngweithio naturiol gan y goreuon ar draws yr ystod ond mae'r duedd i 'berfformio' yn llesteirio trafodaethau sawl grŵp. Mae nerfusrwydd a'r awydd i lwyddo yn rhannol gyfrifol am orffurfioldeb ond mae'r rhai sy'n cael cyfleoedd cyson i drafod ar lawr dosbarth yn ymlacio mwy gyda'r dasg hon. Un o'r prif wendidau sy'n codi o baratoi'n ormodol a thrafod yn rhy ffurfiol yw nad yw ymgeiswyr yn gwranddo ar ei gilydd. Maent yn mynd trwy'r drefn o gytuno cyn mynd ymlaen i drafod rhywbeth hollol wahanol yn hytrach nag ymateb i'r sylw gwreiddiol gan ddatblygu'r ddadl. Golyga hyn fod y grŵp yn colli ei ffordd a bod y drafodaeth yn mynd yn bytiog. Gofynnir yn garedig i chi sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cyflwyno'u hunain yn eglur ar ddechrau'r recordiad er mwyn i'r safonwr adnabod y gwahanol leisiau.

Cryfderau:

- Mwy o drafodaethau bywiog
- Mwy o deimlad o drafod gyda phwrpas ac arddeliad
- Paratoi agweddau i roi strwythur i'r drafodaeth a hyder bod digon i'w drafod yn ogystal â ffocysu'r meddwl i flaenoriaethu'r dadleuon mwyaf heriol yn gyntaf
- Perchnogaeth o'r dasg – gwaith ymchwil annibynnol
- Goreuon yn cymhwyso tystiolaeth yn effeithiol i gefnogi barn
- Anogaeth arbennig i ymgeiswyr ar waelod yr ystod – ni fyddai'r rhai unigolion yn llwyddo i ddweud fawr ddim heb ymyrraeth sensitif yn adlewyrchu adnabyddiaeth dda o'r ymgeiswyr
- Gwrando ac ymateb yn ddidwyll a'r drafodaeth yn datblygu'n dda oherwydd gwrando ac ymateb naturiol heb yr hualau a ddaw o orbaratoi
- Trafodaethau hynod aeddfed a deallus ar y brig gyda'r ymgeiswyr yn cyflwyno dadleuon gydag arddeliad
- Trafodaethau hyfryd o naturiol tua chanol yr ystod

Gwendidau:

- Rhai trafodaethau rhy hir – dim crynhoi dadleuon na theimlad o bwrpas i'r trafod
- Athrawon yn cymryd rhan yn y drafodaeth yn ormodol heb i ymyrraeth fod yn angenrheidiol
- Cyflwyno gwybodaeth ar draul mynegi barn yn hytrach na defnyddio gwybodaeth fel tystiolaeth i gefnogi
- Enghreifftiau prin o grwpiau o bedwar – nid ydynt yn cael tegwch gan fod y grŵp yn rhy fawr
- Mae asesu un ymgeisydd yn her gyda'r dasg hon ond atgoffir athrawon y dylech gymryd rhan yn y drafodaeth yn yr achosion hyn neu bydd yr ymgeisydd dan anfantais gan na all ateb gofynion y bandiau marciau o ran gwrando, ymateb i syniadau eraill a rhyngweithio
- Pwyso a mesur/ymateb ffug cyn troi i drafod pwynt hollol newydd
- Tuedd yn ymddangos i ddweud 'Ymchwiliais...', neu 'Yn ôl fy ymchwil...' ac mae cywair o'r fath braidd yn ffurfiol ar gyfer gofynion y dasg
- Rhai yn chwarae rôl cadeirydd gan alluogi eraill i fynegi barn ond yn rhwystro'u hunain rhag ateb gofynion y cynllun marcio
- Nifer fawr ddim yn manteisio ar gyfleoedd sy'n codi'n naturiol o'r drafodaeth
- Datganiadau hirfaith i agor y drafodaeth a'r rheini'n cael eu darllen
- Rhyngweithio annaturiol a ffug – un yn gwneud sylw a'r ail yn cytuno ond yn trafod rhywbeth hollol wahanol yn hytrach nag ymateb i'r sylw cyntaf a datblygu'r drafodaeth
- Ychydig iawn o nodiadau'r dasg hon sy'n cael eu cyflwyno (mae'r canllawiau yn gofyn am gyflwyno unrhyw nodiadau os oes rhai)
- Marcio hael yn aml yn achos grwpiau sydd wedi gorbaratoi – fel yn achos y dasg unigol, nid yw'n deg i rai sy'n cael cynhaliueth lwyf o ddarllen o sgrïpt gael yr un marciau â rhai sy'n ateb gofynion y bandiau marciau mewn dull naturiol

Asesu:

Mae nifer o ganolfannau yn cynnwys nodiadau yn esbonio'u hasesiadau (nid ailadrodd disgrifiadau'r bandiau) ac mae hyn o fudd mawr wrth bwysu a mesur gwaith yr ymgeiswyr. Gellir gweld yn yr achosion hyn mai'r perfformiad ar y dydd sy'n cael ei wobrwyo ac mae hyn yn allweddol wrth sicrhau tegwch. Mae asesu teg ar draws Cymru yn allweddol. Mae heriau gwahanol yn wynebu'r canolfannau ond rhaid cadw at y disgrifiadau bandiau gan mai'r rheini sy'n nodi pryd a natur y dehongli sy'n ddisgwyliedig, er enghraifft. Rhaid wrth gyflwyno **effeithiol** ar Fand 3 gan ddadansoddi **rhywfaint**: nid yw rhestr foel o ffeithiau sy'n parhau am dri munud, felly, yn gallu cyrraedd y band hwn. Ar y llaw arall, nid yw dadansoddi unwaith neu ddwy yn **werthuso pwrpasol** felly ni all gyrraedd Band 4. Rhaid wrth degwch a chofier bod y cymedrolwyr yn gwrando ar samplau o amrywiaeth eang o wahanol fathau o ysgolion mewn gwahanol ardaloedd ar draws y wlad er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

laith:

Mae'n bleser gwranddo ar yr ymgeiswyr yn llwyddo i gyfathrebu syniadau yn eglur, mewn ieithwedd sy'n addas iddynt hwy ac i ofynion y dasg yn aml iawn. Cryfder amlwg yr ymgeiswyr yw ei geirfa lle mae cywirdeb gramadegol yn dioddef mwy. Llongyfarchiadau iddynt ar ddefnyddio'r iaith yn hyderus ac i bwrpas. Dylid eu canmol yn fawr am eu hymdrechion a gobeithio bod y dasg yn fodd i'r rhai llai hyderus feithrin mwy o hyder yn eu gallu ieithyddol.

Cryfderau:

- Mwyafrif yn osgoi geiriau Saesneg
- Geirfa eang
- Amrywio patrymau brawddegau a goslef
- Cysylltu'r gwahanol agweddau'n llithrig gyda geirfa benodol

Materion i'w datblygu:

- Rhai geiriau Saesneg wedi dod yn rhan o ieithwedd naturiol rhai disgyblion e.e. *obviously*
- Angen ymarfer defnyddio geirfa newydd
- Brawddegau heb ferfau

Gwallau amlycaf: cystrawennau Seisnig, gwendidau berfol, negyddu, wnes y ferch.../iddyf fi/ cymysgu pan a phryd/ cymysgu

Crynodeb o brif bwyntiau

Prif negeseuon:

- Mae nodiadau athro yn nodi cyd-destun ac esboniad o'r asesu o fudd mawr yn y broses o safoni.
- Mae safoni mewnol trylwyr yn hanfodol i sicrhau asesu teg.
- Dylid llunio nodiadau cryno ble mae geiriau unigol/dyddiadau yn procio'r cof am ddiwyddiad/gwybodaeth fanylach er mwyn osgoi darllen.
- Mae agoriad bachog yn hawlio sylw'r gynulleidfa ac yn gosod cywair priodol i'r dasg.
- Daw hyder a naturioldeb o wneud gwaith llafar yn greiddiol i weithgareddau ar lawr y dosbarth o flwyddyn 7 ymlaen.
- Ni ddylid paratoi cwestiynau ac ateb o flaen llaw ar gyfer y cyflwyniad unigol.
- Rhaid cael dadansoddi pwrpasol a chyson er mwyn cyrraedd band 4 ar y dasg unigol.
- Rhaid i ymgeiswyr wranddo ar ei gilydd yn y dasg grŵp er mwyn ymateb yn naturiol a datblygu'r drafodaeth.
- Dylid cymhwyso tystiolaeth i gefnogi barn.

Diolch yn fawr i'r holl ganolfannau am weinyddu'r tasgau mor effeithiol ac am arwain eich ymgeiswyr mor gadarn. Ceir cyflwyniadau a thrafodaethau hyderus oherwydd bod tasgau o'r fath yn greiddiol i waith dosbarth yr ymgeiswyr. Digon posib bod adrannau eraill sy'n hyrwyddo'r defnydd o lafaredd yn eu pynciau hefyd o gymorth mawr wrth ddatblygu siaradwyr hyderus. Diolch i'r ymgeiswyr hwythau am eu gwaith.

Cymraeg Iaith Uned 2

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

Sylwadau cyffredinol

Dengys yr atebion i'r papur hwn ddealltwriaeth gynyddol o ofynion yr amrywiol gwestiynau a mwy o ofal wrth geisio ateb cwestiynau'n llawn. Mae ymgeiswyr ar draws yr ystod yn ymwybodol o'r sgiliau angenrheidiol i ateb gofynion y gwahanol gwestiynau'n effeithiol gyda'r goreuon yn rhoi sgiliau soffistigedig ar waith. Unwaith eto, roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi llwyddo i ateb yr holl gwestiynau. Mae'n drueni nad yw nifer fechan yn ceisio ateb cwestiynau mwy heriol fel A12 a dylid eu hatgoffa'n gyson y gellir ateb cwestiwn o'r fath ar sawl lefel, o'r ffeithiau amlwg i'r dadansoddi treiddgar. Diolch unwaith eto am sicrhau bod eich ymgeiswyr yn wynebu amrywiol heriau'r papur hwn gyda hyder.

Gwelwyd o'r data ar lefel eitem fod yna welliant wedi bod yn y cwestiwn ysgrifennu estynedig yn haf 2019 o gymharu â haf 2018 a hynny yn bennaf yn y marciau cynnwys a threfn er y gwelwyd bod y marciau ysgrifennu'n gywir wedi gwella mymryn hefyd. Mae gweld gwelliant yn safon y dasg ysgrifennu estynedig i'w groesawu'n fawr ac anogir canolfannau i ddyfalbarhau i godi safonau ymhellach.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Adran A: Darllen

Er bod lefel her y darnau darllen yn cynyddu wrth symud o destun i destun, dylid atgoffa'r disgyblion bod y cwestiynau yn amrywio o ran eu her. Cynigia'r darnau olaf fwy o her ond bydd y cwestiynau yn caniatáu mynediad i bob ymgeisydd waeth lle y mae ar yr ystod. Gallai ambell un ennill marc neu ddau yn ychwanegol drwy ateb cwestiwn a hepgorwyd neu geisio rhoi ychydig mwy o fanylion. Mae'r mwyafrif llethol, serch hynny, yn ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon gan ddangos dealltwriaeth o'r sgiliau sydd angen eu cymhwyso i'r gwahanol gwestiynau.

- A1 Llwyddodd mwyafrif llethol yr ymgeiswyr i nodi 'David Lloyd George' fel yr ateb cywir. Roedd ambell ateb yn aneglur oherwydd newid meddwl a dileu ateb gwreiddiol a dylid sicrhau bod yr ateb terfynol yn hollol eglur.
- A2 Roedd y mwyafrif yn deall ystyr 'anghyffredin'.
- A3 Roedd sawl ateb y gellid ei dderbyn ac roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi llwyddo i nodi ateb synhwyrol. Roedd ambell ymgeisydd wedi esbonio beth oedd y casgliad yn hytrach na **ble** y gellid ei weld. Dylid atgoffa ymgeiswyr i gofnodi'r ateb yn union fel ag y mae yn y darn darllen o ran sillafu a phrif lythrennau gan mai prawf darllen yw hwn.
- A4 Fel yn achos A1, mae angen cofnodi'n eglur gyda'r cwestiynau aml ddewis. Cafodd y mwyafrif yr ateb hwn yn gywir.
- A5 Er i fwyafrif yr ymgeiswyr nodi'r dewis cywir, roedd mwy wedi colli eu ffordd gyda'r cwestiwn hwn gan ei fod yn golygu mwy o ddarllen a gwirio. Aeth nifer am ateb oedd yn cynnwys un o'r geiriau cywir gan ei fod yn canu cloch ond nid oedden nhw wedi gwirio'r ateb hwnnw drwy ailedrych ar y darn darllen.

- A6 Un marc o ddau oedd fwyaf cyffredin gyda'r cwestiwn hwn gan fod gofyn ystyried y pedwerydd datganiad yn ofalus iawn a gwirio'r ateb unwaith eto. Ni ellir ateb y math yma o gwestiwn o gof yn unig. **Wedi'r** frwydr y dienyddiwyd Gwenllian felly ni chafodd ei lladd **mewn** brwydr.
- A7 Roedd nifer dda o'r ymgeiswyr wedi ceisio ateb y cwestiwn hwn yn eu geiriau eu hunain ac wedi gallu esbonio'r isdeitl yn dda. Roedd tuedd, serch hynny, i esbonio **rhan** o'r isdeitl yn unig. Roedd nifer wedi esbonio ystyr arwres, cudd a diwydiant gan gynnig ateb cyflawn. Roedd rhai wedi llwyddo i ennill marciau llawn er bod yr iaith a ddefnyddid i aralleirio yn ddigon elfennol, a hynny gan fod eu hesboniad mor fanwl. Dyma brofi bod ymgeiswyr ar draws yr ystod yn gallu ennill marciau llawn o dalu sylw i union ofynion y cwestiwn ac ateb yn llawn. Yn anffodus, roedd nifer wedi trafod y gystadleuaeth yn hytrach na'r isdeitl.
- A8 Llwyddodd y mwyafrif llethol i nodi '1993' fel yr ateb gan ennill y marc yn y cwestiwn hwn.
- A9 Er mwyn ateb gofynion y cwestiwn, roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr nodi o leiaf ddau deimlad er mwyn cyfleu'r **newid** a llwyddodd pob un i wneud hynny. Gallai'r mwyafrif drafod ei diffyg diddordeb yn troi'n ddiddordeb byw. Roedd rhai, wedyn, yn gweld ei bod yn dechrau teimlo siom wrth i Gymru golli ac yna'r cyffro o'u gweld yn ennill. Bu'n galonogol gweld nifer gynyddol o ymgeiswyr yn ceisio dadansoddi trwy esbonio'r newid teimladau ac roedd ymgais o'r fath yn ennill un marc ychwanegol iddynt. Roedd y goreuon yn dadansoddi'r newidiadau'n effeithiol iawn. Dangoswyd bod bwydo geirfa dehongli yn annog ymgeiswyr i feddwl am ddehongli'n gyson. Roedd cyflwyno tystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi sylwadau hefyd yn allweddol gyda'r cwestiwn hwn ac roedd yr ymgeiswyr yn gwneud hyn yn gyson, un ai trwy aralleirio neu trwy ddyfynnu. Dengys hyn fod yr ymgeiswyr yn cael hyfforddiant effeithiol o wneud pwynt, i gefnogi'r pwynt gyda thystiolaeth cyn nodi arwyddocâd y dystiolaeth. Un pwynt pwysig i'w godi yma yw i fod yn ofalus gyda'r gair 'sut'. Nodwyd mewn hyfforddiant yn gyson nad yw sut bob tro yn golygu arddull a dyma enghraifft o gwestiwn felly. Digon teg os oedd yr ymgeiswyr yn cyfeirio at nodweddion arddull oedd yn cyfleu teimladau ond roedd rhai wedi disgyn i'r trap o drafod arddull y darn heb ateb y cwestiwn am deimladau lola Wyn.
- A10 Ychydig iawn o'r ymgeiswyr a fethodd nodi ansoddair yn gywir ac o'r rhai a fethodd roedd y mwyafrif heb ymgeisio. Gwelid yn aml fod ymgeiswyr wedi newid eu meddwl ar ôl darllen A11 er mwyn gallu trafod effaith yr ansoddair yn well ac nid yw hyn yn broblem cyn belled â bod yr ateb terfynol yn hollol eglur i'r arholwr.
- A11 Dyma enghraifft berffaith o'r angen i ddarllen y cwestiwn yn ofalus. Cafwyd nifer fawr o atebion yn nodi beth yw effaith generig ansoddair e.e. creu darlun byw/darlun yn fy mhen/cyfleu teimlad/creu awyrgylch. Nid dyma oedd y cwestiwn! Roedd y cwestiwn yn nodi 'Trafodwch pa mor effeithiol **yw'r** ansoddair' ac nid 'Pa mor effeithiol **yw** ansoddair'. Cafwyd trafodaethau da ac yn amlwg roedd hyfforddiant cadarn wedi bod ar ddefnyddio dull EEE wrth drafod arddull. Er bod rhai yn atebion arwynebol, roedd y mwyafrif yn ymwybodol o'r angen i drafod yr ansoddair penodol a ddewiswyd gyda'r goreuon yn fanwl ac yn aeddfed. Disgwylid i'r ansoddair gael ei drafod yn ei gyd-destun neu fel arall roedd y drafodaeth eto'n troi'n gyffredinol. Llwyddodd rhai i drafod yr ansoddeiriau mwyaf heriol, hudol a lledrithiol, yn hynod effeithiol ond efallai i rai wneud dewis annoeth gan nad oeddent yn llwyddo i drafod effaith yr ansoddeiriau hyn oherwydd diffyg dealltwriaeth.

A12 Mae'n amlwg bod y canolfannau yn hyfforddi ymgeiswyr yn effeithiol sut i gymharu gan fwydo geirfa cymharu a phatrymau brawddegau. Llwyddodd y mwyafrif i drafod profiadau lola Wyn a Laura McAllister ar y cyd gan dynnu cymariaethau da. Ychydig iawn o atebion arwynebol a gafwyd e.e. y ddwy yn ferched/y ddwy yn Ffrainc a llwyddwyd i ddod o hyd i gymariaethau ychydig yn fwy heriol e.e. rhannu'r profiad gyda theulu a ffrindiau. Dylid pwysleisio i'r ymgeiswyr yn y dyfodol y dylai pawb roi tro ar gwestiynau mwy estynedig sy'n seiliedig ar ddarnau darllen mwy heriol gan fod y cwestiwn yn cynnig mynediad i bob un ohonynt. Llwyddodd y goreuon i ddadansoddi'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ddwy yn effeithiol a thua chanol yr ystod fe welid mwy o ymgeiswyr yn ceisio esbonio a dadansoddi. Ychydig iawn oedd yn trafod y ddwy ar wahân a dylid annog yr ymgeiswyr i beidio â gwneud hynny gan nad yw'r wybodaeth a gyflwynir yn cyfateb bob tro ac felly mae cymharu yn brin. Roedd rhai hefyd yn cymharu'r darnau darllen yn hytrach na'r ddwy fenyw. Roedd yr atebion gorau yn crynhoi tebygrwydd/gwahaniaeth cyn enghreifftio a thrafod arwyddocâd y wybodaeth e.e. pwy oedd fwyaf angerddol. Mae angen cryn hyfforddiant ar ymgeiswyr er mwyn gwaredu rhai gwallau cyffredin wrth gymharu e.e. y ddwy ddarn/y ddau ferch. Un gwendid arall oedd cyflwyno gwybodaeth ddigyswllt am y ddwy gyda chysyllteiriau cymharu yn y canol: rhaid i'r cymharu fod â chyswllt clir er mwyn argyhoeddi.

A13 Golygu
Roedd yr ymgeiswyr wedi ymdopi'n dda â'r cwestiwn hwn ond roedd rhan iii) yn naturiol yn cynnig mwy o her.

- (i) Llwyddodd y mwyafrif i nodi'r ateb cywir.
- (ii) Roedd y mwyafrif wedi ateb yn gywir gan ddarllen y cymalau oll cyn gwneud eu dewis. Mae'n hanfodol gwirio'r ateb er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr wrth gwrs.
- (iii) Llwyddodd y mwyafrif i ddedol 'gwell' a 'cystal' ar gyfer y ddwy frawddeg gyntaf. Nododd nifer fawr yr ateb anghywir i'r drydedd frawddeg, serch hynny.

Adran B: Ysgrifennu

B1 Prawf ddarllen

- (i) Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn addawol. Mae'n eironig, serch hynny, bod ymgeiswyr yn gallu cywiro gwallau sydd wedyn yn ymddangos yn eu gwaith ysgrifennu yn B2! Mae'n dystiolaeth gadarn bod y canolfannau'n rhoi sylw i gywirdeb ieithyddol a bod yr ymgeiswyr yn gyfarwydd â rheolau iaith. Y cam nesaf yw eu cael i gymhwyso'r wybodaeth wrth ysgrifennu ac mae honno'n gryn gamp! Y gwallau mwyaf cyffredin oedd 'y haf', 'y gwers' ac 'y ddrws'.
- (ii) Tua 65% a gafodd yr ateb yn gywir (ei chath hi) ac mae hyn yn dystiolaeth bod cenedl enwau yn peri trafferthion i ymgeiswyr.
- (iii) Cafwyd sawl amrywiaeth yma (ei fod hi/bod hi'n/bod mae hi) a phrin oedd yr atebion cywir. Mae rhagenwau blaen yn dipyn o her i'n ymgeiswyr.

B2 Cynnwys a Threfn

Cafodd yr arholwyr bleser o ddarllen tasgau Adran B eleni gyda'r holl ymgeiswyr yn llwyddo i wahanol raddau i gynnal diddordeb y darllynydd. Cafwyd darluniau manwl o amrywiaeth eang o bobl, boed hynny mewn portread neu adroddiad. Defnyddiodd nifer y darn darllen am Gwenllian fel sail i'w gwaith ond ychydig iawn a lwyddodd i gyflwyno digon o wreiddioldeb yn y darnau hyn. Atgoffir ymgeiswyr mai cyswllt thematig sydd rhwng y testunau a'r darnau darllen a bod gwreiddioldeb yn hanfodol. Roedd y portread yn fwy poblogaidd na'r adroddiad ond gwelwyd nifer fawr o adroddiadau llwyddiannus yn ogystal. Gwelwyd tystiolaeth o gynllunio effeithiol gan nifer o ymgeiswyr. Roedd mwy yn sicrhau defnydd o nodweddion arddull amrywiol i gynnal diddordeb, efallai oherwydd natur y dasg. Roedd yn galonogol gweld llai o ddarnau rhy fyr eleni.

Portread

Cryfderau:

- Roedd y rhai a ddewisodd pobl roeddent yn eu hadnabod yn creu darnau mwy didwyll ac annwyl e.e. Portread o 'Mrs Jones drws nesa' wedi apelio'n fawr.
- Cafwyd rhai disgrifiadau cynnil.
- Roedd y goreuon yn cynnwys gwybodaeth berthnasol yn unig, yn hytrach na dilyn fformiwla ystrydebol, gan greu darluniau llawn o nodweddion pwysicaf y person dan sylw.
- Oherwydd natur y dasg, gwnaed defnydd o dechnegau arddull priodol e.e. ansoddeiriau, cymariaethau, trosiadau ac ebychiadau.
- Er eu bod yn brin, roedd ambell ymgeisydd yn ysgrifennu'n hynod wreiddiol ac aeddfed ac yn cyrraedd brig Band 5 ond gwelwyd ymgeiswyr ar draws yr ystod gyda fflachiadau gwreiddiol yn eu gwaith.
- Roedd rhai wedi meddwl yn wreiddiol ac wedi ysgrifennu am Ysbyty, er enghraifft, fel arwr.
- Roedd yn hyfryd gweld nifer yn cyfeirio at eu harwyr fel pobl ddylanwadol oedd wedi effeithio'n bositif ar eu bywydau yn hytrach nag enwogion a rhesymau arwynebol dros eu hedmygu.

Gwendidau:

- Roedd portreadau o bobl enwog yn llai diddorol gan nad oedd yr ymgeiswyr yn meddu ar ddigon o wybodaeth yn aml.
- Diffyg amrywio patrymau brawddegau oedd y gwendid mwyaf o ran cynnal diddordeb y darllynydd.
- Tueddai rhai i ganolbwyntio ar agweddau mwy arwynebol fel ymddangosiad a gwybodaeth ffeithiol gan hepgor agweddau pwysig megis personoliaeth a dylanwad ar eraill.
- Cafwyd portreadau o Gwenllian oedd yn llwyr ddibynnol ar y darn darllen ac yn cynnwys copïo helaeth o'r testun.

Adroddiad

Cryfderau:

- Gwelwyd dealltwriaeth dda iawn o ffurf adroddiad yn cynnwys teitl, isdeitlau a cholofnau yn ogystal â strwythuro cadarn.
- Gwelwyd gwybodaeth anhygoel am destun eu hadroddiadau (tybed a oedd ambell un yn destun llafar unigol i ambell ymgeisydd).
- Nododd un arholwr y gellid yn hawdd gyhoeddi rhai o'r adroddiadau.
- Gwelwyd mwy o ffresni a gwreiddioldeb gyda'r dasg hon.

Gwendidau:

- Doedd y syniad o arwr ddim yn ddigon amlwg.
- Roedd rhai adroddiadau mewn cywair rhy anffurfiol ac yn ymdebygu i bortread mewn gwirionedd

Ysgrifennu'n Gywir (Iaith, Gramadeg, Sillafu ac Atalnodi)

Amrywiaeth patrymau brawddegau ac ehangder geirfa ymgeiswyr yw dau o'r prif gryfderau ieithyddol gyda chywirdeb gramadegol yn dioddef yn aml. Rhwir ystyriaeth i'r ddwy elfen wrth benderfynu ar farc iaith. Gwelir geirfa pynciau eraill yn bwydo'r ysgrifennu yn aml ac mae gallu defnyddio geirfa mewn cyd-destunau gwahanol yn sgil allweddol. Fel y nodwyd eisoes, mae nifer yn gallu cywiro gwallau yn B1 ond yn gwneud yr un gwallau yn eu gwaith eu hunain. Er gwaethaf gwallau diofal, mae'n galonogol iawn bod geirfa ymgeiswyr yn dda a'u bod yn gallu cyfathrebu syniadau'n eglur.

Cryfderau:

- Geirfa'n gadarn gan y mwyafrif
- Amrywio dechrau brawddegau (nifer yr ymgeiswyr)
- Atalnodi'n dda ar y cyfan
- Sillafu'n dda ar y cyfan

Gwendidau:

- Dim digon o amrywiaeth brawddegau gan nifer
- Gwallau treiglo
- Rhedeg arddodiad gyda rhagenw
- Idiomaau Saesneg
- Mor gymaint/rhai weithiau/i gyd o
- Cymysgu 'roedd' a 'mae'
- Defnydd o'r rhagenw blaen yn brin
- Cenedl enwau yn arwain at wallau treiglo a defnydd o'r rhifolyn anghywir
- Defnyddio enwau lluosog wrth gyfeirio at unigolion e.e. Gareth Bale yn chwaraewyr pêl-droed

Crynodeb o brif bwyntiau

Negeseuon Adran A

- Dylid sicrhau bod yr ateb wedi ei nodi'n glir yn arbennig os oes newid meddwl yn digwydd.
- Mae angen gofal gyda sillafu wrth godi geiriau o'r darn darllen.
- Rhaid darllen y cwestiwn yn ofalus er mwyn sicrhau ateb pwrpasol ac ateb pob rhan o'r cwestiwn.
- Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod 'sut' yn golygu arddull bob tro.
- Dylid gwirio pob ateb er mwyn sicrhau cywirdeb.
- Dylid trafod effaith nodweddion arddull yn eu cyd-destun.
- Mae angen ceisio cymharu ar y cyd yn hytrach nag ar wahân.
- Mae'n bwysig defnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen i gefnogi sylwadau. Dylai'r ymgeisydd fod yn holi ei hun: sut ydw i'n gwybod hyn?
- Mae dadansoddi/esbonio/dehongli yn codi'r ateb i dir uwch. Ar ôl cyflwyno ffaith o'r darn darllen dylai'r ymgeisydd ofyn: beth mae hyn yn olygu/yn ei ddangos am...
- Dylid ateb pob cwestiwn gan fod mynediad i pob ymgeisydd hyd yn oed ar y cwestiynau estynedig.

Negeseuon Adran B

- Mae gwreiddioldeb yn allweddol wrth gynnal diddordeb ac ennill marciau, boed hynny'n syniadau gwreiddiol neu wreiddioldeb yn y dull o gyflwyno syniadau.
- Mae cynllunio effeithiol yn arwain at gyswllt cadarn rhwng paragraffau ac undod i'r gwaith.
- Dylai'r ymgeiswyr geisio amrywio patrymau brawddegau yn gyson er mwyn cynnal diddordeb darlennydd.
- Mae cysondeb a chywirdeb berfau yn allweddol i fynegiant cadarn.

Diolch i'r holl ymgeiswyr am eu dyfalbarhad ac i'r holl athrawon am eu paratoi mor drylwyr. Mae'n braf gweld yr ymgeiswyr yn troi at y cwestiynau gyda hyder oherwydd addysgu effeithiol.

Cymraeg Iaith Uned 3
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
HAF 2019

Sylwadau cyffredinol

Roedd bron pob ymgeisydd wedi ymdrechu i ateb holl gwestiynau'r papur arholiad gan arddangos eu gallu i feddwl yn annibynnol a chymhwyso gwybodaeth i ofynion y cwestiynau amrywiol. Er i'r cwestiynau byrion yn Adran A ganiatáu mynediad i'r ymgeiswyr oll, roedd y cwestiynau estynedig yn fwy o her iddynt. Wedi dweud hynny, gwelwyd datblygiad arwyddocaol yn sgiliau ymgeiswyr oddi ar Cyfres Haf 2018 i ateb cwestiynau cyfuno gwybodaeth, dadansoddi dulliau a thechnegau perswadio. Roedd Adran B yn hygyrch i'r ymgeiswyr a phrofwyd ganddynt y gallu i drafod a pherswadio at wahanol ddibenion. Diolch unwaith eto i'r canolfannau am hyfforddi'r ymgeiswyr i feithrin yr amrywiol sgiliau i ymdopi â gofynion gwahanol gwestiynau ac am annog meddwl annibynnol.

Yn yr uned hon fel yn Uned 2 gwelwyd o'r data ar lefel eitem fod yna welliant wedi bod yn y ddau gwestiwn ysgrifennu estynedig yn haf 2019 o gymharu â haf 2018. Roedd hynny i'w weld yn y marciau ysgrifennu'n gywir yn ogystal â chynnwys a threfn. Ailadroddir y neges yma bod gweld gwelliant yn y cwestiynau ysgrifennu i'w groesawu'n fawr ac anogir canolfannau i ddyfalbarhau i godi safonau ymhellach.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Adran A: Darllen

- A1 Nodwyd yr ateb cywir yn rheolaidd. Cafwyd rhai atebion anghywir megis "*Gŵyl deuluol*" neu enwi rhai o'r artistiaid. Anghyson oedd y defnydd o'r prif lythrennau yn yr enw priod "*Parti Ponty*".
- A2 Roedd bron pawb yn ateb yn gywir – er i ambell un anghofio defnyddio'r symbol £.
- A3 Er bod bron pawb yn cael 1 marc am enwi un o'r gwledydd, roedd llawer yn cael trafferth esbonio "*rhyngwladol*". Roedd sawl un hefyd yn credu bod y ffaith nad oes "*unman yng Nghymru ymhellach na thair awr mewn car o Ddolgellau*" yn esboniad! Dylai ymgeiswyr gofio rhoi prif lythyren ar ddechrau enw gwlad.
- A4 Llwyddodd y mwyafrif i ennill 4 marc. Collodd sawl ymgeisydd farc drwy roi tic mewn 3 neu 5 blwch yn hytrach na 4. Gan amlaf, pan oedd ymgeisydd yn colli marc, roedd yn credu bod y datganiad "*Defnyddia eli haul a gwisga het rhag i ti ddioddef twymyn y gwair*" yn ateb cywir.
- A5 Gwelwyd gwelliant amlwg eleni yn nealltwriaeth yr ymgeiswyr i ofynion ateb y math hwn o gwestiwn. Mae hyfforddiant Hydref/Tachwedd 2018 wedi derbyn sylw yn y canolfannau ac mae hyd yn oed yr ymgeiswyr gwannaf yn llwyddo i ennill marciau am allu adnabod ac enghreifftio technegau/nodweddion. Mae'r patrwm EEE yn gysylltiedig i ateb yr ymgeiswyr - yn fwy felly na llynedd.

Llwyddodd yr ymgeiswyr cryfaf a mwy aeddfed i drafod amrywiaeth o dechnegau yn eu hatebion – berfau gorchymynol, ansoddeiriau cadarnhaol, rhestru, cyfarch, idiomau, trosiadau ayyb a'u dadansoddi gyda sylwadau megis *“mae'r trosiad 'gwledd o gerddoriaeth' yn apelio at bobl sy'n mwynhau cerddoriaeth ac yn awgrymu - fel y stondinau bwyd sydd yno – bod dewis eang o gerddoriaeth a all apelio at bawb o bob oed”*. Fodd bynnag, prin oedd yr atebion a oedd yn haeddu 7 neu 8 marc oherwydd y diffyg dyfnder cyson yn y dehongli a'r dadansoddi.

Er mwyn i'r ymgeiswyr sy'n ennill 5 o farciau gyrraedd marciau uwch dylent ganolbwyntio ar un enghraifft o dechneg ar y tro a'i hesbonio yng nghyd-destun y dyfyniad hwnnw'n benodol – nid yn gyffredinol.

Er mwyn codi marciau'r ymgeiswyr hynny a gafodd 3/4 marc am eu gwaith, mae angen osgoi defnyddio termau Saesneg megis *“bold”* yn hytrach na *“print trwm/tywyll/wedi'i dduo”* a sicrhau labelu cywir drwy'r gwaith yn ogystal â dehongli'n ystyrlon yn gyson.

Gwelwyd nifer o ymgeiswyr da hefyd yn camlabelu *“cyffro”* yn ansoddair yn hytrach nag enw.

Er bod mwy o dystiolaeth o ymgeiswyr yn meddwl yn annibynnol ac yn wreiddiol am effaith a phwrpas defnyddio'r technegau yn y gwaith, gwelwyd atebion o hyd a oedd yn dibynnu'n gyson ar atebion stoc megis *“mae cyflythrennu yn gwneud i'r darllenwr gofio geiriau”, “mae'r ansoddeiriau yn disgrifio'r wyl a gwneud iddi edrych yn dda”, “mae defnyddio isdeitlau yn rhannu'r darn yn llai fel ei fod yn hawdd i'w ddarllen”, “mae'n apelio i'r llygad”, “mae'n gwneud i bobl fod eisiau darllen mwy”*.

Cofier nad yw 8 marc yn golygu bod angen trafod 8 techneg – gweler y cynllun marcio.

- A6 Roedd nifer helaeth o'r ymgeiswyr yn ennill eu dau farc drwy nodi bod *“tua hanner y grwpiau a'r stondinwyr yn dod o ogledd Cymru”*. Er hyn, roedd rhai yn newid *“tua hanner”* i fod yn *“rhan fwyaf/llawer”* ac felly nid oedd modd eu gwobrwyo.
- A7 Roedd yr ateb yn gywir bron yn ddi-ffael.
- A8 Roedd tua tri chwarter yr ymgeiswyr wedi ateb yn gywir ond y chwarter arall wedi credu mai'r ateb cyntaf oedd yn gywir.
- A9 Er mwyn cael y marc roedd angen dangos dealltwriaeth mai diffyg arian oedd y rheswm dros ddod â Gŵyl Gopr Amlwch i ben. Nododd sawl un *“pres”* fel rheswm heb gyfleu'r diffyg.
- A10 Cafodd yr ymgeiswyr gryn drafferth i esbonio ystyr yr idiom. Lleiafrif oedd yr ymgeiswyr a gafodd yr ateb yn gywir. Gallai nifer wneud y cyswllt rhwng y darn darllen a'r idiom ond heb ddeall mai arian sy'n rheoli gyda sylwadau megis *“y canu'n dod i ben yn yr wyl”, “mae'r gân olaf yn ennill mwy o arian”, “diwedd rhywbeth”*. Dyma gwestiwn hefyd a adawyd yn wag gan nifer o ymgeiswyr heb ymgais i'w ateb.
- A11 Gwelwyd tystiolaeth bod nifer uwch o ymgeiswyr wedi deall beth yw gwir ystyr cyfuno a hynny o ganlyniad i hyfforddiant CBAC fis Hydref/Tachwedd. Yng ngwaith yr ymgeiswyr hynny roedd ymgais i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd yn seiliedig ar y darnau gydag ymgais i ddehongli gan ddefnyddio'r ymadroddion a'r cymalau cysylltiol a awgrymwyd bryd hynny (*dengys hyn... yn sgil hyn... effaith hyn... mae hyn yn dangos i ni... o ganlyniad i hyn... golyga hyn... gellir casglu o hyn... ystyr hyn yw...*) ac yn Adroddiad Arholwr Cyfres Haf a Thachwedd 2018. O ddefnyddio

ffeithiau/gwybodaeth o'r darnau darllen a chyflwyno ateb a oedd yn trafod y testun drwy ddehongli roedd modd ennill marciau uchel.

Yn anffodus, mae nifer o ymgeiswyr mewn sawl canolfan yn dal i gredu mai cwestiwn cymharu yw hwn ac yn defnyddio ymadroddion diangen megis “*yn debyg*”, “*yn wahanol*”, “*yn narn darllen 5*”, “*ond yn narn darllen 6*”.

Llwydda nifer i gywain gwybodaeth o'r darnau a rhestru ffeithiau ond heb fedru ennill marciau uwch na 3 allan o 8 gan nad ydynt yn dehongli'r wybodaeth.

Roedd rhai ymgeiswyr heb roi cynnig ar y cwestiwn hwn.

Adran B: Ysgrifennu

Prin iawn oedd yr ymgeiswyr na lwyddodd i ateb y cwestiynau hyn, ac yn ôl sylwadau'r arholwyr prin iawn oedd yr ymgeiswyr a gamddehonglodd y cwestiynau. Gwelwyd ôl hyfforddiant yng ngwaith yr ymgeiswyr gyda nifer gynyddol ohonynt yn taro gofynion y trydydd band o ran cynnwys.

B1 Cynnwys a Threfn

Roedd ôl hyfforddiant clir i'w weld yng ngwaith rhai ymgeiswyr. Strwythurwyd yr erthygl yn gadarn mewn paragraffau estynedig gan y goreuon. Roedd hi'n amlwg bod nifer o'r ymgeiswyr wedi defnyddio'r erthygl yn y deunydd darllen i sicrhau strwythur gadarn yn eu gwaith eu hunain. Trefnwyd y gwaith dan isbenawdau gan nifer e.e. “*Pwysigrwydd*”, “*Rhwystrau*,” “*Sut i achub y digwyddiad?*”

Ymddengys i'r ymgeiswyr fwynhau'r dasg gan eu bod yn cael trafod pethau o fewn eu byd a gwelwyd angerdd a theimladau cryfion tuag at y gwahanol ddigwyddiadau e.e Rali Ffermwr Ifanc, cárnifal y pentref, sioe ddawns flynyddol, yr eisteddfod leol, gorymdeithiau LGBTQ, Ffair Cricieth.

Gwelwyd enghreifftiau o ysgrifennu arbennig gan ymgeiswyr ym mand 5 er bod safon o'r fath yn brin. Rhaid canmol defnydd yr ymgeiswyr o ymadroddion a thechnegau mynegi barn – roedd hyn yn sicrhau bod cywair yr erthygl yn addas i'r pwrpas e.e *ffolineb llwyr yw...*, *credaf...*, *does dim amheuaeth...* Mae'r defnydd o gyfarch yn uniongyrchol gan ddefnyddio berfau gorchmynnol a chwestiynau rhethregol er mwyn pigo cydwybod ac ansoddeiriau i apelio at emosiynau'r darllenydd ar gynnydd yng ngwaith ymgeiswyr. Cyflwynwyd syniadau ymarferol ac amrywiol sut i adfer y sefyllfa e.e. golchi ceir, tudalen i gyfrannu ar y we, gwirfoddoli, stondin gacennau, diwrnod gwisg anffurfiol.

Yn anffodus, eleni eto, roedd rhai ymgeiswyr yn dibynnu'n ormodol ar y darnau darllen a rhai ohonynt yn copïo air am air ohonynt. Yn ogystal, yng ngwaith ymgeiswyr Band 2 roedd diffyg gwreiddioldeb yn amlwg a phrinder technegau er mwyn trafod a chyflwyno dadleuon/rhesymau.

Roedd hi'n bleser darllen gweithiau'r goreuon. Roedd eu gafael yn gadarn ar ieithwedd y testun hwn, roedd yr ymgeiswyr hynny'n hyderus ac yn fedrus wrth ddefnyddio berfau amhersonol yr amser gorffennol a'r presennol yn ogystal â'r berfau afreolaidd. Roedd her yr eirfa a ddefnyddiwyd gan yr ymgeiswyr ar frig yr ystod yn bleser i'w weld.

Ysgrifennu'n Gywir (Iaith, Gramadeg, Sillafu ac Atalnodi)

Fodd bynnag, roedd cywirdeb ieithyddol a gwallau elfennol iawn yn britho gwaith nifer fawr o'r ymgeiswyr, ac mae hyn yn destun pryder. Unwaith eto eleni roedd terfyniadau berfau'n peri problem i nifer ohonynt. Roedd yr arddodiaid yn faen tramgwydd hefyd e.e defnyddio'r arddodiad anghywir yn dilyn berfenw e.e siarad i..., siarad at..., gofyn wrth..., dweud i... Roedd yr arddodiaid yn cael eu rhedeg yn anghywir yn gyson ac mewn rhai achosion nid oeddent yn cael eu rhedeg o gwbl e.e. at fi..., iddych chi..., iddyf fi..., i fo..., i hi... ac nid oedd cyfran helaeth o'r ymgeiswyr eleni eto'n cofio treiglo'n feddal ar ôl y 12 arddodiad. Dylid rhoi sylw i negyddu brawddegau hefyd. Syndod oedd cymaint o ymgeiswyr a gafodd drafferth ysgrifennu "yr wyl" (gydag "y gwyl" yn amlygu'i hun yn gyson – er bod y treigladd cywir i'w weld mewn sawl un o'r darnau darllen). Sylwyd hefyd fod "llynedd" ac "eleni" yn diflannu o eirfa pobl ifanc Cymru gydag "y flwyddyn yma" ac "y flwyddyn ddiwethaf" yn dod yn llawer mwy cyffredin.

B2 Cynnwys a Threfn

Teimlir i'r ymgeiswyr gael hwyl dda ar y cwestiwn hwn – dyma dasg lwyddiannus a apeliodd at y mwyafrif. Roedd y technegau perswadio i'w gweld yn gyson a'r hyfforddiant da a geir mewn canolfannau yn cyfoethogi'r gwaith. Mae dealltwriaeth a gwybodaeth ymgeiswyr o Gymru - ei lleoliadau amrywiol a'i thraddodiadau - yn rhyfeddol ac, yn galonogol, roedd ymgeiswyr bandiau 1 a 2 yn llwyddo i ddangos eu bod nhw'n ymwybodol o'r technegau sy'n rhaid eu defnyddio er mwyn perswadio.

Cynigwyd ffeithiau diddorol gan nifer am eu hardaloedd lleol e.e. "*Oeddech chi'n gwybod mai Wrecsam yw'r 3ydd Clwb Pêl-droed hynaf yn y byd*", "*Castell Caerffili yw'r ail gastell mwyaf yn Ewrop*". Strwythurwyd y gwaith yn effeithiol gan fwyafrif yr ymgeiswyr ac roedd ffurf yr hysbyseb yn gadarn gyda theitl bachog a defnydd cyson o isdeitlau i rannu'r wybodaeth.

Yng ngweithiau'r goreuon roedd y technegau perswadio i'w gweld rif y gwllith. Roedd hi'n amlwg bod yr ymgeiswyr hyn wedi cael eu trwytho yng ngofynion y testun hwn. Cafwyd anogaeth i ymweld â manau megis Eryri, Aberaeron a Sir Benfro, i flasau danteithion Cymreig, i ymweld â gwahanol wyliau a digwyddiadau cenedlaethol ac i ymweld â manau arwyddocaol yn chwedlau'r Mabinogi a hanes Cymru. Rhaid canmol gwreiddioldeb arbennig yr ymgeiswyr ar frig yr ystod, mae hi'n rhyfeddol beth mae ambell ymgeisydd yn llwyddo i'w gyflawni dan amodau arholiad – "*o'r gogledd i'r de ble mae llefrith yn troi'n llaeth*". Mewn rhai achosion prin, cafwyd enghreifftiau arbennig o ymgeiswyr yn defnyddio rhesymau'n fedrus a disgrifio'n synhwyrus er mwyn perswadio darllenwyr i ymweld â Chymru.

Ysgrifennu'n Gywir (Iaith, Gramadeg, Sillafu ac Atalnodi)

Roedd y berfau gorchmynnol i'w gweld yn gyson yng ngwaith ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu yn ogystal â'r cwestiynau rhethregol a'r idiomau, ond idiomau stoc oedd nifer ohonynt a gwelwyd tystiolaeth gyson ohonynt yn cael eu pentyrru'n ormodol ar brydiau. Rhaid annog yr ymgeiswyr i fod yn wreiddiol a dewis a dethol idiomau i bwrpas. Er bod lle i ddefnyddio tablau a deunydd pytiog, roedd tuedd gan ambell ymgeisydd i ganolbwyntio ar bris y gwyliau a bargeinion mewn gwestai.

Yr un yw'r gŵyn eto eleni am ddiffyg ymwybyddiaeth ymgeiswyr sut mae ysgrifennu'n safonol gywir ar bapur gan ysgrifennu'n union fel y maent yn siarad – 'ddaru', 'fysach', 'ella', 'wbath' – mae hyn angen sylw. Roedd nifer o ymgeiswyr yn cael trafferth cadw at ferfau gorchmynnol lluosog ac yn cymysgu'r rhagenwau ôl 'ti/chi'. Roedd terfyniadau berfol "bod" yn yr amser dyfodol yn peri trafferth i'r ymgeiswyr gyda sawl enghraifft o 'bydd ni...', 'bydd fi...', 'bydd nhw...', 'bydd chi' yn ymddangos yn y gwaith. Roedd pryd i ddefnyddio 'mewn/yn' unwaith eto eleni yn drysu'r ymgeiswyr yn ogystal â threiglo enwau lleoedd ar ôl 'yn' (arddodiad) ac 'i/o'. Mae'r gystrawen Seisnig yn ymddangos yn fynych yng ngwaith ymgeiswyr e.e. 'amser o'ch bywyd', 'i gyd o', 'rhai weithiau', 'Maen nhw efo' a'r mwyafrif yn methu defnyddio 'hwylus/hwyliog' yn y cyd-destun cywir. Roedd enwau lluosog yn broblem eleni e.e. 'castelloedd/castelli', 'trefoedd', 'traethoedd' a syndod oedd gweld defnyddio enwau Saesneg e.e. *Snowdonia, Snowdon, Anglesey, Swansea, Gower* yng ngwaith yr ymgeiswyr.

Crynodeb o brif bwyntiau

- **Wrth ymateb i dechnegau mewn deunydd darllen anllenyddol, mae safon dadansoddi personol/gwreiddiol/cyd-destunol ymgeiswyr yn bwysicach na sawl techneg mae'n ei thrafod neu gyflwyno atebion stoc.**
- **Wrth ateb cwestiwn cyfuno gwybodaeth, mae angen sicrhau nad yw'r ymgeiswyr yn cymharu'r testunau a'u bod yn dehongli'r wybodaeth – gweler Adroddiad Arholwr Haf 2018 a Tachwedd 2018.**
- **Mae lle i weithio ar redeg berfau yn gywir – berfau syml rheolaidd, ac yn enwedig y ferf "bod".**
- **I'r goreuon, mae angen sicrhau bod y berfau amheronol yn cael eu defnyddio'n gywir ganddynt ac na ddylid eu cymysgu â'r 3ydd person unigol e.e. dywedwyd/dyweddod.**
- **Mae angen i ymgeiswyr fedru gwahaniaethu rhwng defnydd o iaith lafar/dafodieithol ac iaith ysgrifennu safonol at bwrpas tasg arholiad.**



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk